| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **12 Hydref 2009** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

**Penderfyniadau**

2. **Cyng. William A Pritchard, Cyngor Tref Abermaw -** Fe gofia aelodau fod yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r achos hwn at Banel Dyfarnu Cymru am benderfyniad. Cynhaliwyd y gwrandawiad ar 26ain Mehefin. Penderfynodd y Tribiwnlys Achos y dylid diarddel y Cynghorydd am 12 mis rhag bod neu ddod yn aelod o Gyngor Tref Abermaw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall. Atodir copi o ddyfarniad llawn y tribiwnlys.

3. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gwynion y mae'r Ombwdsmon wedi eu gwrthod.

**Achosion heb benderfyniad**

4. Rydym yn ymwybodol o ddwy gŵyn nad yw'r Ombwdsmon eto wedi penderfynu os yw am ymchwilio iddynt ac un arall lle mae wedi penderfynu cynnal ymchwiliad (cyfeirnod achosion 200802179, 200802180 & 200900808).

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.